

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 6ed o FEHEFIN 2016 YN 'STAFELL Y BAND, CRWBIN AM 7.00.

Presennol: Alan Lewis (yn y gadair), Geraint Rosser, Ian Evans, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Linda Williams, Margaret Rees, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees, Wendy Evans, Geoff Hewitt, Meic Bowen, Ellis Jenkins a Richard Thomas

Materion Personol

1453 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Llongyfarchwyd Margaret Rees ar enedigaeth Wyr iddi. Penderfynwyd danfon Carden a Blodau gwerth £20 i Annie Davies, 14, Maesyberllan, Llangyndeyrn sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed.

1454 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 09/05/2016 fel rhai cywir.

1455 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1424 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. – Arhoswn am ddyddiad y Cyfarfod safle gyda'r Cyngor Sir a'r Heddlu i drafod y mater ymhellach

Tud 1. Cofnod Rhif 1424 - Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe – Parhawn i aros am yr arwyddion.

Tud1. Cofnod 1429 - Ysgol y Gwynfryn - Derbyn cyfrifoldeb am Barc Gwynfryn - Cafwyd adroddiad gan y Clerc am y Cyfarfod Safle a gynhaliwyd ar 16/05/16. Penderfynwyd aros am amcan brys o'r gwaith angenrheidiol cyn tafod hwn ymhellach.

Tud 3. Cofnod 1440 - Heol i Fferm Tŷ Mawr, Carwe - Penderfynwyd, ar ôl darllen ymateb y Cyngor Sir, i ofyn am amcan brys oddiwrth Gwendraeth Tarmacadam am y gwaith angenrheidiol.

Tud 4. Cofnod 1452 – Dylai'r cofnod nodi mai dros wal Ysgol y Gwynfryn y mae'r sbwriel yn cael ei daflu.

Cynghorwr Geraint Rosser yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1456 Cyflwyniad Shared Access

Cafwyd trafodaeth yn dilyn Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 16/05/16 a phenderfynwyd gwahodd Phil Wright o Gwmni Shared Access i'n Cyfarfod nesaf i drafod y mater ymhellach.

Geraint yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1457 Sioe Bancffosfelen a'r Cylch – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £200..

1458 Shelter Cymru – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1459 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Gwelliannau ym Marc Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £4500.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1460 Society of Local Council Clerks – Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol 2016 - 2018 - Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyllid ar 16/06/16 i ystyried y mater ymhellach

Ceisiadau Cynllunio

1461

Ceisiadau Cynllunio:

- Mr D O Jones - Rhan o Dir 15 Heol Nasareth, Pontiets - Newid ar amodau - Dim Gwrthwynebiad.
- Trak Homes Ltd- Tir nes at 189, Heol y Meinciau, Pontiets- 4 Tŷ - Gwrthwynebiad ar sail mai 2 Byngalo oedd bod ar y safle a phroblemau gordatblygi'r plot.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1462 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mai 2016.

Adroddiad Ariannol Misol

1463 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a)** Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Mai)
- b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mai)
- c)** Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £97.52 (Mis Mai)
- ch)** HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Mai)
- d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mai)
- dd)** Fan i'r Swyddfa - £14.00
- e)** Ciran Griffiths – Torri Gwair ym Marc Carwe - £30.00

Offer Chwarae Parc Carwe

1464 Derbyniwyd adroddiad oddiwrth y Clerc. Penderfynwyd derbyn amcan brys Wicksteed Playscapes o £13653.00 + TAW - Cyfanswm o £16283.60.

Yswiriant y Cyngor

1465 Awdurdodwyd y Clerc i dalu Cwmni Zurich am Yswiriant y Cyngor y swm o £1002.97 am y flwyddyn sy'n rhedeg o 13/07/2016 hyd at 12/07/2017.

Ffon a Band Llydan y Swyddfa

1466 Adroddwyd gan y Clerc bod y gwaith o osod Llinell Ffon a'r Band Llydan yn Swyddfa'r Cyngor wedi dod i ben. Awdurdodwyd y Clerc i dalu £120.00 i Gwmni BT ac yna i Dalu £37.00 y mis am y llinell.

Toiledau'r Meinciau

1467 Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod y Gofalydd yn anhwylyd ar hyn o bryd. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach yn Cyfarfod Mis Gorffennaf

Platiau i'r Cyngor

1468 Penderfynwyd prynu 6 Plât gwerth £20 yr un oddiwrth Crochendy Felingwm ac un arbennig i gydnabod gwaith Emyr John am bris hyd at £35.

Materion Cynghorwyr

- 1469** Linda - Cysylltu â Martin Richards ynglŷn â'r sedd yng nghysgodfa Heol Bancyroffis.
- 1470** Alan - 1) Gofyn i'r Cyngor Sir ynglŷn â 'Scrap' yn Llethur Bach, Meinciau.
2) Asynnod ar yr Hewl ym Mhedair Heol - cysylltu â'r Heddlu.
- 1471** Ian – 1) Dyfroedd Byw Pontnewydd yn diolch am atgyweirio'r Bont ym Mhontnewydd.
2) Cwt y Cadno yn tyfu ar y llwybr wrth Barc Carwe am 50 m.
- 1472** Geraint - Cysylltu â Mike McCaully ynglŷn â'r bins sbwriel yn y Meinciau
- 1473** Tyssul – 1) Cael pris wrth Martin Richards am Banister ar y grisiau i'r Swyddfa.
2) Caniatâd i brynu a thalu am chwynladdwr i'r 'Japanese Knotweed'.

**Cyfarfod nesaf:- 11 o Orffennaf 2016 yn Festri Moreia Meinciau am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....